Nant Gwrtheyrn: '*A llonydd gorffenedig …*'

Yn ystod yr haf bu aelodau clwb cerdded yr eglwys ar daith i'r gogledd. Dyma argraffiadau un o'r teithwyr, Iolo Walters, o'r daith:

Aeth 18 aelod o griw Clwb Cerddwyr Eglwys Minny Street ar antur flynyddol y Clwb i Ganolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn (3-5 Gorffennaf 2011). Y llynedd, Bwlchllan a Thregaron oedd y gyrchfan ond eleni, penderfynwyd mentro i ben arall Cymru am dridiau.

Ffordd gyfarwydd yr A470 fu'n ein tywys am ran helaethaf y daith. Heibio i Lyn Clywedog am bicnic a chyfle cyntaf i fwynhau '*Powys - Paradwys Cymru*', yna, Llanbrynmair â'i chysylltiadau dirifedi, Plas Tan-y-bwlch, heibio i Borthmadog ac i Gricieth i fwynhau hufen iâ arbennig. Yna, aros wrth y Lôn Goed a anfarwolwyd gan R Williams Parry (1884 – 1956) yn ei gerdd *Eifionydd* (1924) a chyrraedd a mwynhau ei '*llonydd gorffenedig*'. Wedi dwndwr y brifddinas, roedd modd clywed y tawelwch. 'I ble arweiniai'r ffordd hon?' gofynnai rhai o'r criw. Roedd y bardd wedi hen ateb y cwestiwn cyn ei ofyn:

'*I lan na thref nid arwain ddim*
Ond hynny nid yw ofid im.'

Bu Rhiannon (Evans) yn cyfoethogi ein hadnabyddiaeth o'r gerdd oesol ei neges.

Cyrraedd y Nant a chlwydo am ennyd yn ein hystafell foethus. Wedi swper hyfryd, ein harweinydd, John Albert (Evans) yn ychwanegu yn ddirfawr at ei gyfeiriadaeth yn ei gyfrol trwy adrodd hanes prynu Gwesty'r Pistyll adeg ei aelodaeth o Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn. Bu'n gyfnod anodd iddo yntau - a Tegwen – a diolch iddo am ei barodrwydd i lenwi bylchau yn yr hanes. Mwynhau machlud y belen goch a thawelwch llethol y Nant. Dyma '*le i enaid gael llonydd*' (J Glyn Davies, 1870-1953). Fore Iau, troi am Eglwys Beuno Sant yn Llanaelhaearn ac Eglwys y Pistyll. Ein horganyddes amryddawn a dawnus Helen (Evans) yn ein harwain i ganu Calon Lân ar yr harmoniwm. Morfa Nefyn i fwynhau picnic ac yna, i Uwchmynydd i hel atgofion a rhyfeddu at 'ramant y rhod a miragl y tymhorau' a rhyfeddu at fyd natur - Cymru ar ei gorau. Bae Ceredigion yn gant a mil o liwiau glas, y mynyddoedd yn gefndir i'r tapestri cyfoethog. Jestyn (Harries) yn ein hatgoffa o gerdd Cynan (1895 – 1970) am Aberdaron. Swper a Harri Richards o Sarn Mellteyrn yn cyflwyno baledi difyr i'n diddanu. Sylwi ar gyfrol gan un o anwyliaid Eglwys Minny Street, y Parchedig Huw Ethall ar R G Berry (1869 – 1945) yn Llyfrgell y Nant. Clwydo wedi cerdded i'r traeth. Fore Gwener, heibio i fedd David Lloyd George (1863 – 1945), i Drawsfynydd cyn ciniawa yn y Cross Foxes a throi am adref.

Atgofion? Cant a mil ohonynt. Yn bennaf, braf cael crwydro Cymru eto gydag eneidiau 'hoff cytûn', y chwerthin, y cyfeillgarwch, y tynnu coes. Dywedodd un ymwelydd yn Uwchmynydd wrth un o'r criw ein bod yn 'jolly lot'. Gwir a ddywedodd! Cant a mil o ddiolch i John Albert am drefnu'r cyfan, am ein bugeilio, ein corlannu a gofalu amdanom.

Ble awn ni nesaf?